# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**

15/12/2020

## PWYSIG: Achos COVID 19 Positif - nid oes angen gweithred

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Fe'n hysbyswyd bod unigolyn yn ein hysgol wedi profi'n gadarnhaol ar gyfer COVID-19. Hoffem eich sicrhau nad oes unrhyw achos pryder a hoffwn roi cymaint o wybodaeth â phosibl i chi.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a Test, Trace, Protect (TTP) GIG Cymru, ac rydym yn dilyn yr holl gyngor ac arweiniad a roddwyd i ni.

Gallwn gadarnhau nad oes unrhyw ddisgyblion nag aelod o staff yn yr ysgol wedi cael eu nodi fel rhai sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â'r unigolyn dan sylw.

Mae'r broses hon o brofi ac olrhain cyswllt yn rhan o'r 'normal newydd' a lle mae ysgolion yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes rheswm dros bryderu.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa os byddwch chi, eich plentyn neu unrhyw un sy'n byw gyda chi, yn dechrau arddangos y symptomau canlynol, rhaid i chi i gyd aros gartref a dilyn cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Peswch parhaus newydd a/neu
- Tymheredd uchel
- Colli neu newid eich ymdeimlad arferol o flas neu arogl.

Os bydd unrhyw achosion cadarnhaol pellach, cyhoeddir yr holl ddiweddariadau ar wefan y cyngor

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/

Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl y tu allan i oriau ysgol, gyda neu heb unrhyw un o symptomau COVID-19 neu os oes angen iddo hunan-ynysu, rhowch wybod i ni drwy ffonio Delta Wellbeing ar 0300 333 2222 neu drwy anfon e-bost at- TTP@deltawellbeing.org.uk a fydd yn hysbysu'r ysgol ar eich rhan.

Yn ystod oriau ysgol ac am bob mater arall sy'n ymwneud ag iechyd, rhowch wybod i'ch ysgol yn uniongyrchol.

Os ydych chi neu'ch plentyn yn teimlo'n sâl a bod angen cyngor meddygol arnoch, ffoniwch **GIG 111** neu ewch i'w wefan **111.wales.nhs.uk**, neu ffoniwch eich meddyg teulu lleol.

Mae'n bwysig ein bod i gyd yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn cynnal ymbellhau cymdeithasol ac yn parhau i olchi ein dwylo'n aml er mwyn atal lledaeniad y firws gymaint ag y gallwn.

Gobeithiwn y gall y wybodaeth rydym wedi'i darparu fod o gymorth ac yn ddefnyddiol yn ystod y cyfnod pryderus hwn. Fel bob amser, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

***C Davies***
Pennaeth